# Mewnwelediad a Deallusrwydd Ionawr 2026

Yn ystod mis Ionawr 2026, ymwelodd tîm Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd â **15** o leoliadau ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen a siaradodd â chyfanswm o **183** pobl (**144** Benyw a **39** Gwryw). Cafodd y tîm gyfle i ryngweithio â thrigolion mewn lleoliadau amrywiol, gan gynnwys lleoliadau a grwpiau cymunedol, sgyrsiau gwybodaeth, a chyfadeiladau llety gwarchod.

## Beth wnaethon ni ei glywed y mis hwn?

- Canmolodd llawer o bobl eu fferyllfa leol am eu cefnogaeth a'r mynediad at feddyginiaethau trwy'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin
- Mae'r Ganolfan Brechu yng Nghwmbrân yn parhau i dderbyn canmoliaeth gref, ac mae llawer o bobl yn tynnu sylw at brofiadau cadarnhaol, sy'n tawelu meddwl yn ystod eu hymweliadau.
- Mynegodd cleifion rwystredigaeth barhaus o ran yr anhawster wrth geisio trefnu apwyntiadau meddyg teulu dros y ffôn gan rannu eu gofid am y 'rhuthr 8am'.
- Roedd ymwelwyr yn adrodd am amseroedd aros hir yn Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor, er bod llawer yn pwysleisio bod staff yn darparu gofal rhagorol ar ôl iddynt gael eu gweld.
- Mae gwasanaethau cataract yn parhau i dderbyn adborth cadarnhaol cryf, yn enwedig gan y rheiny sydd wedi teithio i Gaerloyw ar gyfer eu triniaethau.
- Derbyniwyd ymholiadau am wasanaethau deintyddol a chyfeiriodd y tîm lawer o bobl at y linell gymorth deintyddol




## Beth nesaf?

- Bydd y tîm yn parhau i ganolbwyntio ar lu o bynciau i helpu pobl i aros yn iach yn ystod gweddill misoedd y **Gaeaf**. Mae'r rhain yn cynnwys: Gwybodaeth a chyfeirio ynghylch brchlynnau ffliw, COVID-19 ac RSV; cadw'n iach cyn triniaeth a llawdriniaeth; Canllaw Iechyd Gwent a'r Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin
- Byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth am bynciau amrywiol gan gynnwys:
- Sut y gall trigolion Gwent gael mynediad at **Wasanaethau Sgrinio Canser** a **Chymorth Iechyd Menywod ar gyfer gwasanaethau iechyd mislif, atal cenhedlu a menopos**
- Hyrwyddo Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl gan gynnwys **111 Opsiwn 2** a **Melo**
- **Ymwybyddiaeth Sepsis**

Mae'r holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a'i adolygu i nodi themâu a thueddiadau allweddol. Rydym yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i glywed gyda'r timau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny a chyda uwch arweinwyr. Mae'r mewnwelediadau yn helpu i siapio gwelliannau i wasanaethau, penderfyniadau cynllunio a pholisïau. Rydym hefyd yn anelu at gau'r ddolen trwy rannu diweddariadau gyda chymunedau fel y gall pobl weld sut mae eu hadborth wedi helpu i ddylanwadu ar newid. I gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r gymuned, ewch i'n gwefan: **https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-cymunedol/**